Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan
Cylchlythyr

Hydref 06
Rhifyn 2



Cyfarfodydd Teulu yn cael sail bendith y LLywodraeth

Nid yw adnoddau yn cael ei defnyddio yn effeithiol gan weithdrefnau Gofal Plant yng Nghymru a Lloegr....

Mae dogfen newydd yn gosod gofidiau penodol : oedi heb fod angen; teulu oedd dim yn deall; achosion cymhleth a'r angen i asiantaethau gydweithio yn well. Mae'r Department for Constitutional Affairs (DCA) yn argymell cyfarfodydd teulu ac eiriolaeth i helpu teulu oedd deall pryderon awdurdodau lleol, ac mae angen annog teuluoedd ddatrys y problemau yma cyn i'r mater fynd i'r Llys. Byddai Cyfarfodydd Teulu yn gallu helpu adnabod gofalwyr teuluol, a fyddai wedyn yn cael ei ystyried yn unol a lles y plentyn.

Mae'r Llys yn disgwyl bod awdurdodau lleol wedi gwneud pob dim allent o fewn rheswm cyn cychwyn yn y Llys : mae hyn yn cynnwys darpariaeth addas i deuluoedd gan gynnwys cyfarfodydd teulu. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a: aquinnaziz@cardiff.ac.uk

Lansiad pecyn Cymorth CT

Mae Grwp Hawliau Teulu wedi cynhyrchu pecyn Cymorth ar gyfer Cyfarfodydd Teulu fydd yn cael ei lansio yn y flwyddyn newydd. Y gobaith yw bydd Cyfarfodydd teulu yn cael cydnabyddiaeth statudol yn y papur gwyrdd nesa ar Blant yn Derbyn Gofal. Bydd y pecyn cymorth yn anelu at gynlluniau hen a newydd ac yn gynnig cymorth cynhwysfawr ar gyfer ymarfer a sefydlu cynllun Cyfarfodydd Teulu. Bydd yn cael ei rhyddhau gyda darllenydd sydd yn cynnwys penodau ar ddatblygiad cyfarfodydd teulu trwy Brydain, ymarfer cyfredol a newydd. Bydd y pecyn cymorth o fydd i rai sydd yn sefydlu neu eisoes yn rhedeg cynlluniau. Mae ar gael yng Nghymraeg a Saesneg.

Am fwy o fanylion am y pecyn cymorth neu waith y Grwp Hawliau Teulu cysylltwch a Deanna Edwards neu Sean Haresnape.
dedwards@frg.org.uk
sharesnape@frg.org.uk

Beth yw barn Gweithwyr cymdeithasol am gyfarfodydd teulu ?

Mae cynllun Bro Morgannwg yn adrodd mai'r prif negeseuon gan weithwyr yw eu bod yn awyddus i ddefnyddio'r cynllun CT eto. Mae'r mwyafrif yn dweud eu bod yn obeithiol am y dyfodol a bod y broses wedi helpu. Roeddent yn meddwl fod cynllun y teulu yn dda ac yn debygol o wneud gwahaniaeth sylweddol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Keith Buckler ar KBuckler@valeofglamorgan.gov.uk.

I ymuno â'r rhwydwaith neu am fwy o wybodaeth am y rhwydwaith neu gyfarfodydd teulu yng Nghymru, Prydain neu Ewrop. Cysylltwch a Val (Ysgrifennydd) ar cwlwm@cartrefbontnewydd.org, Ffôn: 01286672922 neu Mike (Cadeirydd) ar mike.clark@trosgynnal.org.uk. Ffôn: 029 2034 4681

Natalie Cleaves yn rhannu profiad personnol o fod yn gydrefnydd yn Ne Cymru

Diolch byth am yr Grp Rhannu Ymarfer De Cymru

Ar ôl gweithio i Awdurdod lLeol am wyth mlynedd roeddwn yn dechrau colli ffydd yn yr ymyriadau plant a theuluoedd arferol. Clywais am Gyfarfodydd Teulu gyntaf wrth i'r awdurdod lleol ddechrau sefydlu cynllun ac yna cefais hanner diwrnod o hyfforddiant. Roedd yn amlwg i mi o'r cychwyn a dechreuais ddefnyddio'r egwyddorion yn fy ymarfer yn syth. Cynyddodd fy nealltwriaeth ac ymroddiad wrth o mo weld canlyniadau positif.

Yn Medi 2005, roeddwn wrth fy modd i weld hysbyseb swydd am gyd drefnydd CT. Yn fuan iawn daeth yn amlwg fod cynnwys rhai egwyddorion i mewn i ymarfer yn un peth ond bod yn gyd drefnydd llawn yn rhywbeth arall!!

Mae'r tîm wedi newid llawer ers i ymuno ac am gyfnod roeddwn heb reolwr nac eiriolydd profiadol. Cyfaddefodd fy rheolwr llinell fod y rheolwr, y cyd drefnydd a'r eiriolydd yn gadael wedi golygu fod yr holl wybodaeth y cynllun wedi mynd efo nhw, suddodd fy nghalon…….

Yna, dyma dderbyn gwahoddiad i'r Grwp Rhannu Ymarfer De Cymru. Yn sydyn roeddwn yn cyfarfod cyd drefnydd arall ar y trên a rhywun yn fy nghwrdd yn y station. Doedd gennyf ddim syniad pwy oeddent ond roeddent yn gynnig help llaw, a dyma fi yn cymeryd eu cynnig! Roeddwn yn nerfus iawn ond ddim am yn hir, ac erbyn hyn dwi yn ran o grwp gwahanol iawn o bobl sydd gyda un peth yn gyffredin, ei ymroddiad i Gyfarfodydd Teulu.



Mae'r Grwp Rhannu Ymarfer wedi rhoid cyfle i mi wrando, dysgu a rhwyd weithio. Dwi wedi ymweld â'r rhan fwyaf o'r cynlluniau, rheolwyr, eiriolwyr a chyd drefnwyr yn Ne Cymru, ac wedi elw o rannu eu gwybodaeth profiad a syniadau. O leiaf ran dwi yn teimlo fy mod yn gwybod be dwi yn ei wneud.

Yn ddiweddar cefais wahoddiad i fynychu hyfforddiant Cyfarfodydd Teulu yng Nghaerdydd. Roedd y sesiwn cyntaf yn dipyn o sioc, Ar ôl cyn gymaint o flynyddoedd yn ceisio gwneud popeth i bawb ac yn trio cefnogi teuluoedd rhag torri i lawr, dydi newid hen arferion ddim yn hawdd, ac roedd rhaid i mi ddysgu rhoid yr awenau yn ôl i'r teulu,

Mae'r pwysa gwaed wedi dod i lawr erbyn hyn, ac os ydi byth yn dechrau codi eto, dwi yn gwybod fod yna gyfarfod o'r rhwydwaith wedi ei drefnu. Heb y rhwydwaith dwi ddim yn gwybod lle fyswn , Diolch byth amdanynt dyweda i.

Cynlluniau newydd

Barnardo's Cymru—wedi ennill cytundeb Cyfarfodydd Teulu ym Mhowys—bydd hyn yn ran o ddatblygiad sylweddol yng ngwaith Barnardo's Cymru yn Mhowys. Ar ben y darpariaeth cyfredol, a cydgordio'r rhaglen rhiantu, byddent yn darparu gwasnaeth cefnogi teuluoedd ar draws y Sir. Y cam nesaf bydd denu cyd drefnydd yn ogystal a gweithwir sesiynol i ddarparu cyfarfodydd ar draws y Sir fawr yma. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Delyth Raynsford : d.raynsford@barnardos.org.uk

Mae Trosgynnal wedi agor Canolfan Eiriolaeth a Dileu Anghydfod yn Mhen y Bont ar Ogwr. Mae'n cael eu ariannu yn rhannol gan y Cyngor a Cymorth i gynnig gwasnaeth eiriolaeth i Blant o 10—18 oed sydd yn Derbyn Gofal a gwasnaeth dileu anghydfod i pobl ifanc rhwng 11 a 25oed. Mae Helen Johnson wedi symud o Fro Morgannwg i reoli'r gwasnaeth aroesol yma a bydd yn defnyddio Cyfarfodydd Teulu i helpu teuluoedd sydd mewn anghydfod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Helen Johnson: Ffôn 01656 669396

Cynlluniau cyfarfodydd Teulu ar Draws Cymru

Flintshire/Wrexham
Pauline Bowe, Taith y Teulu Gwasnaethau Plant Swyddfeydd y Sir Y Wyddgrug, Fflint, CH7 6ND. Ffôn: 01352 702610

Gwynedd/Angelsey/Conwy
Denbighshire: Gwenan Gruffydd/ Maureen Japp
Cwlwm, Cartref Bontnewydd, Bontnewydd, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7UW. Ffôn 01286 671008

Ceredigion: Heulwen Davies, Social Services Department, Ceredigion County Council, Min Aeron, Rhiw Goch, Aberaeron, SA46 ODY Ffôn 01545 570881
Caerfyrddin : Families Forward, Natalie Cleaves, 24 Station Road, Llanelli, SA15 1AN. Ffôn 01554 745156
Neath Port Talbot: Barnardo's, Karen Rees, 4a Queen Street, Neath, SA11 1DL. Ffôn 01639 620771

Caerdydd: Family Circle, Mike Clark, 32b Lower Cathedral Road, Cardiff, CF11 6LT, Ffôn 029 2034 4681
Bro Morgannwg: Vale FGM Project, Keith Buckler, Vale of Glamorgan Council, Dock Office, Barry Docks, Barry, CF63 4RT. Ffôn 01446 704679

Newport/Monmouthshire/Rhondda Cynon Taff, Caerphilly:
Family Answers, David Flanagan, 30 Stow Park Ave, Newport, NP20 4FN. Ffôn 01633 215784